# Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion

Caradog Roberts, 1878-1935

(Remember our country, gracious Sovereign)

Gewddi Wladgarol
87.87.67




**Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,**
**dy gyfiawnder fyddo'i grym:**
**cadw hi rhag llid gelynion,**
**rhag ei beiau'n fwy na dim:**
**rhag pob brad, nefol Dad,**
**taena d'adain dros ein gwlad.**

**Yma mae beddrodau'n tadau,**
**yma mae ein plant yn byw;**
**boed pob aelwyd dan dy wenau,**
**a phob teulu'n deulu Duw:**
**rhag pob brad, nefol Dad,**
**cadw di gartrefi'n gwlad.**

**Gwna'n Sabothau'n ddyddiau'r nefoedd**
**yng ngoleuni d'eiriau glân;**
**dyro'r gwlíth i'n cymanfaoedd,**
**gwna ein crefydd fel ein cân:**
**nefol Dad, boed mawrhad**
**ar d'Efengyl yn ein gwlad.**

Elfed